## Cwestiynau Ymgynghori

Defnyddiwch y ddogfen esboniadol i'ch arwain chi drwy'r cwestiynau.
Rhagor o wybodaeth: Cynllun Strategol - Medr.
Ebostiwch eich ymateb i **ymgynghoriadau@medr.cymru** erbyn **23:59, dydd Gwener, 25 Hydref 2024**.

| | |
|---|---|
| Mae'n debygol y bydd manylion rhai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch os gwelwch yn dda. | ☐ |

* Gofynnol.

| | |
|---|---|
| **Enw** * | Iona Davies |
| **Sefydliad (os yw'n berthnasol)** | UCAC |
| **E-bost** * | iona@ucac.cymru |

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb chi aros yn ddienw, dynodwch hyn yn eich ymateb.

### Rhan Un: dyletswyddau deddfwriaethol a thystiolaeth

1. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod un ar ddeg o ddyletswyddau strategol ar Medr i:
    1. Hybu dysgu gydol oes
    2. Hybu cyfle cyfartal
    3. Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol
    4. Hybu gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol
    5. Hybu gwaith ymchwil ac arloesi
    6. Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil
    7. Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol
    8. Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg
    9. Hybu cenhadaeth ddinesig
    10. Hybu golwg fyd-eang

11. Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cynllun yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau?

☐ Cytuno'n gryf
☒ Cytuno
☐ Anghytuno
☐ Anghytuno'n gryf

A oes unrhyw ddyletswyddau sydd wedi'u tangynrychioli yn y Cynllun?

☒ Oes
☐ Nac oes

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

**DYLETSWYDD RHIF 2 – HYBU CYFLE CYFARTAL**

Er bod cyfeiriadau yn y ddogfen at 'hybu cyfle cyfartal', nid oes unrhyw gyfeiriad at ddisgyblion ADY. Dylai natur y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn fod yn amlwg yn y ddogfen a dylid ei gwneud yn amlwg bod ystyriaeth i ddisgyblion ag ADY.

**DYLETSWYDD RHIF 8 – HYBU ADDYSG DRYDYDDOL DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**

Teimlwn nad oes digon o fanylion ynghylch y modd y bwriedir hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai sefydliadau eisoes yn gwneud gwaith da o hybu addysg ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg, ond prin iawn yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r ethos Gymraeg mewn sefydliadau eraill. Mae angen unioni hyn.

**DYLETSWYDD RHIF 11 – HYBU CYDLAFURIO RHWNG DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL AC UNDEBAU LLAFUR**

Nid yw'n ymddangos fod sylw'n cael ei roi i ddyletswydd 11, sef 'Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg dryddyddol ac undebau llafur'. Siom yw nodi na cheir unrhyw gyfeiriad at undebau llafur yng nghorff y ddogfen.

2. Mae angen i'n Cynllun ymateb i'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi a gyflwynwyd i ni gan Lywodraeth Cymru. Y pum blaenoriaeth yw:

1. Datblygu system drydyddol sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer economi ddeinamig a chyfnewidiol lle gall pob un gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt er mwyn llwyddo mewn bywyd a gwaith.
2. Cynnal a gwella ansawdd y system drydyddol, parhau a dwysáu gwaith ar ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system fwy teg a rhagorol i bawb.
3. Rhoi'r dysgwr wrth wraidd y system drwy ganolbwyntio ar brofiad dysgwyr yn y system drydyddol a'u llesiant.
4. Sicrhau bod y system addysg drydyddol yn cyfrannu at yr economi a'r gymdeithas.
5. Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel sefydliad hynod effeithiol sy'n darparu sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid.

A yw'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol â'r holl flaenoriaethau hyn?

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☒ Yn rhannol

Os mai nac ydy / yn rhannol oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai ymateb yn well iddynt.

Teimlwn nad oes digon o sylw'n cael ei roi i fynd i'r afael â heriau daearyddol e.e. sicrhau tegwch cyfle mewn ardaloedd gwledig. Sut mae sicrhau bod disgyblion mewn ardaloedd fel hynny yn cael yr un arlwy a'r un cyfleoedd â disgyblion mewn ardaloedd fwy dinesig, lle mae'r boblogaeth yn ddwysach?

3. i) A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Ceir cyfeiriad at bwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb. Canlyniad glynu wrth yr egwyddorion hynny fyddai dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, ond nid oes gyfeiriad penodol ac uniongyrchol at ddileu ymddygiad o gasineb.

| |
|---|
| |
| ii) A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig[1] a phobl nad ydynt yn ei rhannu<br>☒ Ydy<br>☐ Nac ydy<br>☐ Yn rhannol |
| **Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**<br>Pwysleisir pwysigrwydd cydraddoldeb a chynwysoldeb drwy gydol y ddogfen. |
| iii) A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu:<br>☒ Ydy<br>☐ Nac ydy<br>☐ Yn rhannol |
| **Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**<br><br>Fel y nodwyd yn flaenorol, canlyniad naturiol cydraddoldeb a chynwysoldeb fyddai cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu. |
| iv) A yw'r Cynllun yn ystyried yr angen i leihau deilliannau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol[2]?<br>☐ Ydy |

[1]Nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

[2] Diffinnir anfantais economaidd-gymdeithasol fel a ganlyn: 'byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas'. Gall profi anfantais economaidd-gymdeithasol gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:
- byw mewn ardal amddifadus;
- bod heb lawer o gynilion neu heb ddim cynilion;
- bod heb lawer o incwm neu heb ddim incwm; a/neu
- brofi amddifadedd materol (hynny yw, bod heb y pethau y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud bod eu hangen ar gyfer safon byw dderbyniol – megis y gallu i brynu dodrefn newydd yn lle rhai sydd wedi gwisgo neu i fforddio gwresogi digonol).

☐ Nac ydy
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**
Ni cheir cyfeiriad at fynd i'r afael â difreintedd a'r angen i sicrhau cyfartaledd cyfle i bawb, beth bynnag fo'r cefndir.  Beth am ddarpariaeth cludiant?  A oes sicrwydd y bydd modd cael cludiant i lefydd astudio? Mae cyfarpar e.e. llyfrau ayb am ddim mewn ysgolion (Chweched Dosbarth).  A yw'r un peth yn wir am sefydliadau addysg eraill? Er bod cyfeiriadau at sicrhau tegwch i bawb, ceir yr argraff bod yr wybodaeth yn fwy perthnasol i ardaloedd trefol, poblog, yn hytrach nag ardaloedd gwledig.  Mae sicrhau tegwch i bawb ym mhob cyd-destun yn heriol iawn ac mae angen rhoi sylw manwl iawn i gyd-destun dysgwyr a sefydliadau a sicrhau na wneir penderfyniadau annoeth ar sail 'niferoedd' a 'gwerth am arian'.

4. A fydd y Cynllun yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?
☐ Bydd
☐ Na fydd
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Mae'n ymddangos y bydd y Cynllun yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol, ond bydd yn rhaid sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd ac nad oes unrhyw laesu dwylo, er mwyn cyrraedd y nodau dan sylw.  Rydym am weld addysg drydyddol sy'n cynnwys 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', yn unol â'r nodau llesiant.   Mae hyn eisoes yn wir am nifer o ysgolion a dylid dilyn eu hesiampl yn y sefydliadau niferus hynny lle nad yw hyn yn wir.

5. A yw'r nodau a'r ymrwymiadau yn y Cynllun yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
☒ Ydynt
☐ Nac ydynt
☐ Yn rhannol

| |
|---|
| **Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**<br><br>Ymddengys mai'r egwyddor wrth sail penderfyniadau yw'r sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |

| |
|---|
| 6. Wrth ddrafftio'r Cynllun hwn, rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth o adroddiadau ac ystadegau a gyhoeddwyd, gan gynnwys 'Cenhadaeth Ein Cenedl – safonau a dyheadau uchel i bawb' a 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr' gan Lywodraeth Cymru a strategaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2023-2050: 'Cymru Can'.<br><br>A oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol y mae angen i ni ei hadlewyrchu yn y Cynllun?<br>☒ Oes<br>☐ Nac oes |
| **Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**<br>Mae angen rhoi sylw hefyd i unrhyw ddogfennau sy'n cyflwyno data argaeledd gweithlu cyfrwng Cymraeg, cyfleoedd posibl o ran prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ayb a beth yw gofynion busnesau, diwydiannau a'r gymuned leol. |

| |
|---|
| 7. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau negyddol yn deillio o'r Cynllun?<br>☒ Ydw<br>☐ Nac ydw |
| **Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**<br>Mae rhywfaint o bryder y bydd y ddarpariaeth mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ac yn enwedig y ddarpariaeth mewn ysgolion â dosbarthiadau chwech bach eu maint dan fygythiad. Rydym yn pryderu hefyd y rhoddir gormod o bwyslais ar niferoedd a dim digon o bwyslais ar faterion na ellir eu meintioli. Nid yw gwerth cwrs bob amser yn gallu cael ei fesur ar sail faint sy'n dilyn y cwrs. |

| |
|---|
| Mae angen rhoi ystyriaeth i gyd-destun sefydliad ac nid seilio penderfyniad yn unig ar ddata moel. |

## Rhan Dau: Nodau, Blaenoriaethau a Chyfleoedd

8. Mae gweledigaeth Medr yn datgan y byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.

A yw'r nodau strategol yn y Cynllun yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth?

☐ Ydynt
☐ Nac ydynt
☒ Yn rhannol

Os mai nac ydynt / yn rhannol oedd eich ateb, darparwch fanylion i ddynodi sut y gallai'r Cynllun ein galluogi'n well i wireddu ein gweledigaeth. Yn eich ymateb, ystyriwch y rôl a fyddai gan eich sefydliad chi i gyrraedd ein nodau.

Mae'r weledigaeth yn un hynod o uchelgeisiol.  Gobeithio y gwelir y nodau hyn yn cael eu gwireddu.  Bydd angen cadw llygad manwl ar y datblygiadau i sicrhau nad oes yr un garfan o ddisgyblion yn cael ei hesgeuluso a bod rhagoriaeth ym mhob maes, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg.

9. O fewn pob un o'r nodau strategol yn y Cynllun, ceir ymrwymiadau sefydlu sydd i'w cyflawni yn y ddwy flynedd gyntaf, ac ymrwymiadau twf sydd i'w datblygu dros bum mlynedd.

Gan ystyried pob un o'r nodau strategol, a yw'r ymrwymiadau sefydlu a thwf yn gywir?

☐ Ydynt
☐ Nac ydynt
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**
Nodir sefydlu 'amgylchedd dysgu diogel' yn yr ymrwymiadau twf (Nod Strategol 1).  Teimlir bod hon yn egwyddor greiddiol y dylid ei sefydlu o'r funud gyntaf ac y dylid symud y mater hwn i fod ymhlith yr ymrwymiadau sefydlu.

Yn Nod Strategol 5, enwir rhai sefydliadau ond mae rhai sefydliadau amlwg eraill wedi eu hepgor ac wedi eu cynnwys, mae'n debyg, yn y geiriau cyffredinol iawn

‘sefydliadau eraill’. Pam y penderfynir enw rhai sefydliadau? Un o’r sefydliadau amlwg ym maes hybu addysg cyfrwng Cymraeg yw CYDAG, ond eto nid oes gyfeiriad ato. Nid oes gyfeiriad chwaith at Yr Athrofa, sy’n cael sylw ym Mil y Gymraeg ac Addysg.

Nodir ‘hybu manteision dysgu Cymraeg’ yn ymrwymiad twf. Oni ddylai hwn fod yn ymrwymiad sefydlu? Yr ymrwymiadau sefydlu sy’n mynd i osod y seiliau ar gyfer y dyfodol a thybiwn fod hybu manteision y Gymraeg yn allweddol o’r cychwyn cyntaf.

Mae ein hysgolion eisoes yn rhoi pwys ar sicrhau ‘amgylchedd dysgu diogel’ a nifer o ysgolion yn ‘hybu manteision dysgu Cymraeg’. Mae’n bwysig dysgu oddi wrth yr enghreifftiau da sy’n bodoli a lledu’r arferion da hyn. Dylai’r ddwy elfen ‘amgylchedd dysgu diogel’ a ‘hybu manteision dysgu Cymraeg’ fod yn egwyddorion craidd, ac felly yn rhan o’r ymrywmiadau sefydlu.

10. Beth yw’r blaenoriaethau allweddol ar gyfer **dysgwyr** y presennol a’r dyfodol yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru?

A yw’r rhain yn cael eu hadlewyrchu ddigon yn y Cynllun?
- ☐ Ydynt
- ☐ Nac ydynt
- ☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Yn eich ymateb, ystyriwch a yw’r Cynllun yn taro digon o gydbwysedd rhwng y blaenoriaethau hyn a’r dyletswyddau eraill (fel a amlinellir yn rhan un) a osodwyd arnom.

Mae’n allweddol bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i astudio ystod eang o bynciau yn eu dewis iaith a hynny heb orfod teithio’n ormodol. Mae’n bwysig diogelu safonau’r ddarpariaeth.

Gwneir ymdrech i daro cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a’r dyletswyddau, ond mae’n annog gwneud sylwadau ynghylch y mater. Mae’r hyn sydd o’n blaen yn dra chyffredinol ar hyn o bryd.

11. Beth yw’r blaenoriaethau allweddol ar gyfer **darparwyr** addysg drydyddol yng Nghymru yn y pum mlynedd nesaf?

A yw’r rhain yn cael eu hadlewyrchu ddigon yn y Cynllun?

☐ Ydynt
☐ Nac ydynt
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Yn eich ymateb, ystyriwch a yw’r Cynllun yn taro digon o gydbwysedd rhwng y blaenoriaethau hyn a’r dyletswyddau eraill (fel a amlinellir yn rhan un) a osodwyd arnom.

Mae ymdrech i daro cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a’r dyletswyddau, ond ychydig iawn o sôn sydd am lesiant y gweithlu. Er mai ‘Hybu cydlafurio rhwng darparwyr a’r undebau yw un o’r dyletswydddau’, nid yw undebau yn cael sylw yng nghorff y ddogfen.

12. Beth yw’r cyfleoedd mwyaf sy’n deillio o fod ag un corff yn gyfrifol am oruchwylio’r sector trydyddol yn ei gyfanrwydd?

Yn eich ymateb, ystyriwch a yw'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o’r cyfleoedd hyn, neu sut allem ni wneud hyn yn well.

Ymddengys mai’r cyfleoedd mwyaf sy’n deillio o fod ag un corff yn gyfrifol am oruchwylio’r sector trydyddol yn ei gyfanrwydd yw:
*Cysondeb
*Cydweithio
*Cydlafurio
*Cael trosolwg ar sefyllfa addysg ôl-16

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'n anodd gweld a yw'r cynllun yn galluogi Medr i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn. Mae'r dyheadau yn rhai canmoladwy, ond rhaid gweld wrth iddynt gael eu gweithredu a ydynt yn ymarferol ac a ydynt yn cyflawni'r bwriadau.

13. Mae dyletswydd ar Medr i hybu cydweithio drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil.

I ba raddau y mae'r Cynllun yn ein galluogi i wneud y gorau o gyfleoedd i gydweithio?

☐ I raddau helaeth
☒ I raddau cymedrol
☐ I ryw raddau
☐ Ddim o gwbl

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Mae cyfeiriad yn y cynllun at rai sefydliadau y gobeithir cydweithio â nhw ond go gyffredinol yw'r sylwadau. Hoffwn gael mwy o fanylion ynghylch y cynlluniau cydweithio.

14. Mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ynglŷn â'r hyn y gallwn ei gyflawni. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd ariannol yr ydym yn gweithio ynddo'n gryn her. Rydym hefyd yn cydnabod bod sefydlu Medr yn her sylweddol i'r sector ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau proses bontio esmwyth.

Gan ystyried y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, i ba raddau y mae lefel yr uchelgais yn y Cynllun yn addas?

☐ I raddau helaeth
☒ I raddau cymedrol
☐ I ryw raddau
☐ Ddim o gwbl

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r dyheadau yn ganmoladwy ac yn uchelgeisiol. Mater arall yw a ydynt yn ymarferol ac yn gyraeddadwy. Fodd bynnag, rhaid wynebu'r dyfodol yn gadarnhaol a gwneud y cyfan o fewn ein gallu i wireddu'r dyheadau.

## Rhan Tri: Ein Huchelgeisiau

15. Rhowch ystyriaeth i'r uchelgeisiau ar dudalen 4 yn y Cynllun.

a) I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n huchelgeisiau hirdymor ar gyfer llwyddiant?

☒ I raddau helaeth
☐ I raddau cymedrol
☐ I ryw raddau
☐ Ddim o gwbl

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda**

Mae'r dyheadau a nodir yn rhai clodwiw.

b) Pa newidiadau sy'n ofynnol yn y sector i wireddu'r uchelgeisiau hirdymor hyn?

**Darparwch fanylion ac enghreifftiau os gwelwch yn dda.**

Mae'r dyheadau yn uchelgeisiol iawn. Bydd angen gweithlu, adnoddau a chyllid digonol. Bydd yn rhaid wrth ddoethineb a sensitifrwydd wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn bresennol.

c) Sut fyddwn ni'n gallu mesur llwyddiant yn erbyn yr uchelgeisiau hyn?

**Darparwch fanylion ac enghreifftiau os gwelwch yn dda.**

Bydd modd mesur rhai o'r uchelgeisiau hyn yn feintiol. Bydd mesur llwyddiant rhai o'r lleill yn anos a bydd dulliau gwahanol yn berthnasol i bob un.

## Rhan Pedwar: Y Gymraeg

16. A yw'r Cynllun yn rhoi adlewyrchiad priodol o uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

☐ Ydy
☐ Nac ydy
☒ Yn rhannol

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Rydym yn croesawu pob cyfeiriad at gynyddu'r cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond teimlwn fod lle i fod yn fwy rhagweithiol ac yn fwy blaengar. Buasem wedi disgwyl bod camau wedi eu cymryd i sicrhau bod Medr yn weithle dwyieithog cyn iddo gael ei sefydlu. Mae'r ail osodiad yn un i'w ganmol, ond eto ymddengys braidd yn niwlog, annelwig a gor-gyffredinol. Siom hefyd yw gweld mai ymrywymiad 'twf' yw 'hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg'. Teimlwn y dylai hwn fod yn ymrwymiad 'sefydlu'.

17. Pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol allai'r Cynllun eu cael ar:

a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Rydym yn gobeithio y bydd mwy o gyfleoedd i bobl ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Ar y llaw arall, rydym yn poeni y bydd datblygiadau trydyddol mewn rhai ardaloedd yn fygythiad i ddarpariaeth gadarn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn rhaid monitro'r sefyllfa ieithyddol yn ofalus iawn.

Gobeithio y bydd Medr yn ei holl weithgareddau yn parchu'r Gymraeg ac yn sicrhau tegwch i'r Gymraeg. Amser a ddengys yn hyn o beth.

18. A ellid newid y Cynllun i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau andwyol, ar:

a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

☐ Gellid
☐ Na ellid

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**
Byddai'n syniad da i'r Cynllun gyfeirio at strategaeth hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff trydyddol.  Mae'n bwysig bod gweithlu digonol ar gael.  Er mwyn cael y gweithlu priodol, mae angen mynd yn ôl ac edrych ar gyfleoedd hyfforddiant a sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas ar gyfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

b) beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
☐ Gellid
☐ Na ellid

**Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.**

Dylid edrych yn fanylach ar y strategaeth i sicrhau bod pob cwrs yn gallu cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a beth yw'r gweithredrefnu fydd mewn lle i gynnig cyfleoedd cyfartal i'r ddwy iaith.

Mae'n hollbwysig bod cyllido digonol er mwyn diwallu anghenion y Gymraeg. Mae'r gofynion cyllidol yn rhywbeth y mae angen rhoi sylw iddo o'r cychwyn cyntaf.  Ni ellir cyflawni heb yr adnoddau priodol ac er mwyn cael yr adnoddau hynny, mae angen cyllid digonol.